# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



## Calendr

**Gŵyl y Banc**
**4/5/26**

**Bore Agored Math**
**7/5/26**

## Wythnos yma

Rydym wedi mwynhau wythnos hapus a heulog arall yn yr ysgol! Dydd Gwener diwethaf, fe wnaeth criw o flwyddyn 6 gystadlu yng nghystadleuaeth Cwis Llyfrau. Mae'r disgyblion wedi bod wrthi yn paratoi ers wythnosau ac roedd rhaid iddynt drafod llyfr a pharatoi hysbyseb. Diolch yn fawr i Mr Evans am ei hyfforddi ac edrychwn ymlaen at glywed canlyniad y gystadleuaeth yn fuan.

### Pêl droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed blwyddyn 4 am ddod yn ail agos iawn yng nghystadleuaeth Pêl droed Caerdydd a'r Fro wythnos yma. Roedd y safon yn anhygoel a'r bechgyn wedi perfformio'n wych. Diolch yn fawr i'r staff sydd wedi bod wrthi yn hyfforddi'r tîm.

### Ymddeoliad

Hoffem ddymuno pob dymuniad da i Mrs Ingrid Morgan sydd yn ymddeol heddiw. Diolch o galon iddi am ei holl gyfraniad gwerthfawr i Ysgol Treganna a byddwn yn ei cholli'n fawr iawn. Mwynhewch bob eiliad o'ch ymddeoliad gwbl haeddiannol!

### Celf a Chrefft yr Urdd

Da iawn i bawb wnaeth gystadlu yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Wythnos yma, cafodd y gwaith ei feirniadu yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd. Cafodd nifer o'n disgyblion wobrau ac mae'r canlyniadau yn llawn ar ein cyfrif Instagram. Llongyfarchiadau enfawr i'r disgyblion buddugol fydd nawr yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Gweler y tabl isod yn nodi enwau'r disgyblion buddugol.

# Lansio Cit Chwaraeon Newydd – Neges i Rieni Derbyn – Bl 6.

Rydym yn falch iawn o gyflwyno cit chwaraeon newydd sbon eleni, yn dilyn adborth gan ein disgyblion. Dywedasant fod y topiau presennol yn rhy drwm ac ddim yn 'dopiau chwaraeon go iawn.' Mae'r cit newydd yn ysgafnach, yn fwy cyfforddus, ac wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer gwersi Ymarfer Corff.

Drwy glicio ar y ddolen isod, gallwch brynu top chwaraeon gyda chludiant am ddim am gyfnod cyfyngedig. I helpu sicrhau bod pob plentyn yn derbyn cit newydd cyn Diwrnod Chwaraeon yr ysgol, gall rhieni ddefnyddio'r cod disgownt YSGOL26, sy'n cynnig £7 oddi ar gost cludo yn ystod mis Ebrill a Mai yn unig.

****Total Teamwear :: Ysgol Treganna PE****

Bydd archebion a osodir ym mis Ebrill a Mai yn cael eu danfon i'r ysgol ac yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion
O 1 Mehefin ymlaen, bydd pob archeb yn cael ei danfon i gyfeiriad cartref am gost ychwanegol.

Wrth archebu, cofiwch sicrhau eich bod yn nodi enw'r plentyn a'i flwyddyn/dosbarth, er mwyn sicrhau bod yr archeb yn cael ei phrosesu'n gywir.
Mae pecynnau chwaraeon hefyd ar gael, sy'n cynnwys:

- Siaced
- Siorts
- Top chwaraeon â sip
- Llythrennydd personol

Os oes angen cymorth gyda dewis maint, mae croeso i chi alw heibio'r dderbynfa ddydd Iau rhwng:

- 8.30–9.30yb
- 3.00–4.00yp

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus a rydyn ni wir yn gobeithio fod y disgyblion yn hoffi'r citiau newydd.

# Canlyniadau Celf a Chrefft yr Urdd

**Dyma restr o'r disgyblion buddugol yn Eisteddfod Celf a Chrefft y Sir.**

| Llun 2D Bl 3 a 4 | Enlli Daniel | Creu tecstiliau, creu ffabrig Bl 5 a 6 | Elsi Williams |
|---|---|---|---|
| Creadigol 2D Bl 5 a 6 | Esme Jones | Pyped Bl 5 a 6 | Vivienne Lloyd-Allen |
| Graffeg cyfrifiadurol Bl 2 ac iau | Gwendolen Lloyd- Allen | Uwchgylchu Blwyddyn 2 ac iau | Lily Hurley |
| Ffotograffiaeth, llun du a gwyn Bl 5 a 6 | Henri Jones | Uwchgylchu Bl 3 a 4 | Iylah Hurley |
| Ffotograffiaeth llun lliw Bl 5 a 6 | Sara Dafydd Roberts | Serameg Bl 2 ac iau | Ngaia Henderson |
| Ffotograffiaeth, cyfres o luniau lliw Bl 5 a 6 | Isabella Rhys | Gemwaith Bl 3 a 4 | Nansi Williams |
| Argraffu Bl 3 a 4 | Arwyn Cysewski Light | Gemwaith Bl 6 ac iau grŵp | Nansi a Mabli |
| Addurno ar ffabrig Bl 3 a 4 | Megan Gethin | Dylunio a Thechnoleg Bl 3 a 4 | Morus Llywellyn |

# Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**

Bwyd

Cefais i… dydd Sadwrn

Cefais i…neithiwr

**Her**

Hoffwn i gael…

**Testun trafod yr wythnos**

Beth am rannu jôc doniol?

**Cân yr wythnos**

Angel Hotel - Superted

**Idiom yr wythnos**

Does dim dwywaith amdani.